**Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28 – Gweithrediadau Blwyddyn 3**

**Gwynedd Lewyrchus: Cryfhau'r economi a chefnogi trigolion Gwynedd i ennill cyflogau teilwng**

| Adran a Prosiect | Trosolwg | Beth ydym am ei gyflawni yn ystod y DRYDEDD flwyddyn 2025-26 (cerrig milltir): | Ydi'r garreg filltir wedi ei chwblhau | Beth sydd wedi ei gyflawni yn ystod y flwyddyn a'r effaith (neu effaith tebygol) ar bobl Gwynedd? Dylid hefyd cynnwys gwybodaeth neu dystiolaeth i gadarnhau hyn (mesurau neu ddata sy'n cadarnhau ayyb) |
|---|---|---|---|---|
| **Economi a Chymuned - Hyrwyddo ein diwylliant ac economi ymweld gynaliadwy** | Byddwn yn cymryd cyfres o gamau er mwyn hyrwyddo ein diwylliant a chreu economi ymweld gynaliadwy:<br>• Bydd Cynllun Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri, a luniwyd ar y cyd gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, yn cael ei lansio yng ngwanwyn 2023. Bydd prif bartneriaid a rhan ddeiliaid yn cydweithio i gyflawni'r hyn fydd yn y Cynllun gan sefydlu Partneriaeth Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri.<br>• Byddwn yn sicrhau llewyrch o'r dynodiad Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru a | Byddwn wedi gweithredu rhaglen waith Cynllun Economi Ymweld Gwynedd ac Eryri 2035 ac wedi targedu adnoddau i hyrwyddo'r amcanion newydd.<br><br>Byddwn wedi ystyried deddfwriaeth cenedlaethol ar yr Ardoll Ymwelwyr ac wedi ymgynghori trwy Bartneriaeth Gwynedd ac Eryri 2035.<br><br>Byddwn wedi hyrwyddo a monitro defnydd 4 Aros-fan ar draws Gwynedd ac wedi gwerthuso'r cynllun peilot | Do<br><br>Do<br><br>Do | Cynllun gwaith yn ei le a chronfeydd megis SPF 2 a Chronfa Pethau Bychain, Croeso Cymru wedi i'w targedu o ran adnoddau i weithredu'r amcanion.<br><br>Trafodaethau wedi eu cynnal gyda busnesau a phartneriaid sector yn Partneriaeth Gwynedd + Eryri 2035. Trafodaethau wedi' cynnal gyda Awdurdod Cyllid Cymru a Llywodraeth Cymru yn ogystal â Awdurdodau lleol eraill. Adroddiad a Chynnig Ardoll Gwynedd drafft wedi eu trafod yn y Pwyllgor Craffu 12 Chwefror 2026. Adroddiad pellach i'w gyflwyno i'r Cyngor Llawn Mai 2026 i gymeradwyo proses ymgynghori ffurfiol.<br><br>Ers Mehefin 2024 a hyd 30/04/26, 3,518 o archebion parcio dros nos wedi eu llogi yn safleoedd Arosfan (1,977 Criccieth / Pwllheli / Caernarfon a 2,654 Llanberis). Achos gorfodaeth wedi cael i ddwyn yn erbyn 96 cerbyd oedd wedi |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | sicrhau adnoddau i gyflawni'r Cynllun Gweithredu Safle Treftadaeth y Byd.<br>• Byddwn yn Rheoli Cartrefi Modur sy'n ymweld â Gwynedd drwy beilota datblygu hyd at 6 safle pwrpasol i gartrefi modur aros dros nos.<br>• Bydd cynnal Eisteddfod Genedlaethol 2023 yng Ngwynedd yn llwyfan i ddathlu ein diwylliant a'n hiaith, y celfyddydau a chwaraeon a sicrhau bod yr Eisteddfod yn gadael gwaddol gadarnhaol ar gymunedau Gwynedd. | | | parcio mewn mannau an-swyddogol. Trafodaethau wedi cychwyn o ran datblygu gofod Arosfan pellach yn Nhywyn. Adroddiad gwerthuso yn cael i'w ddarparu i gyflwyno i'r cabinet yn ystod 2026 |
| | | Byddwn wedi cefnogi cymunedau a busnesau Gwynedd i hyrwyddo a dathlu diwylliant yn lleol drwy'r prosiect 'Diwyllesiant 2'. | Do | Grantiau gwerth bron i £300,000 wedi eu cynnig i 69 o sefydliadau ar draws Gwynedd er mwyn cefnogi gweithgareddau diwylliannol a byw'n iach. Gweithgareddau prosiect Diwyllesiant 2 wedi cwblhau gyda Gwasanaethau diwylliannol, Cwmni Byw'n Iach yn ogystal â Antur Waunfawr ac Eco-Amgueddfa Llyn. Peilot Eco-Amgueddfa wedi datblygu ym Mangor. Risg i barhad gweithgareddau a gefnogir yn y dyfodol oherwydd newidiadau i gynlluniau cyllido Llywodraeth y DU. |
| | | Byddwn yn monitro ac yn gweithredu cynlluniau newydd i ddarparu gwasanaethau yn Storiel, Amgueddfa Lloyd George a Neuadd Dwyfor, a chydweithio gyda partneriaid yn y sector ddiwylliannol i adnabod blaenoriaethau i'r dyfodol. | Do | Gwelliannau Amgueddfa Lloyd George wedi eu cwblhau a'r amgueddfa wedi ail-agor. Adolygiad o'r gofodau a chomisiwn datblygu cynulleidfa ar waith. Gwelliannau allanol i Storiel ar waith a trydydd arddangosfa Celf (Yr Oriel Gelf Gyfoes) wedi ei chynnal. Cynllun Datblygu Cynulleidfa wedi ei gwblhau. Trefniadau cofrestru cwmni elusennol i gefnogi Storiel ar waith. Caffi wedi ail-agor 10 Chwefror 2026. Gwelliannau Neuadd Dwyfor yn dwyn-ffrwyth gyda nifer ymwelwyr. Tîm Arweinyddiaeth wedi trafod Gweledigaeth ac Egwyddorion Diwylliant. Digwyddiad 'Diwylliant Gwynedd: er lles |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Byddwn wedi cefnogi cymunedau Gwynedd i fanteisio ar ddynodiad treftadaeth byd y diwydiant llechi gan weithredu prosiect trwy arian Loteri Treftadaeth i brosiect LleCHI LleNI, ac arian o Gronfa Ffyniant Gyffredin a Chronfa Ffyniant Bro, yn cynnwys gwaith:<br>• Ogwen – contractwyr ar safle Yr Hen Bost, cwblhau uwchraddio'r llwybr cysylltiol i Chwarel Penrhyn, agoriad swyddogol Neuadd Ogwen<br>• Dinorwig – contractwyr ar safle Yr Amgueddfa Lechi a Pharc Padarn<br>• Blaenau Ffestiniog – agor yn swyddogol y llwybr cysylltiol, agoriad swyddogol Aelwyd yr Urdd, contractwyr ar safle Church St<br>• Celf Cyhoeddus – agoriad swyddogol wedi ei wneud mewn 6 tref<br>• Gwelliannau Canol Tref – cynlluniau wedi eu cwblhau mewn 6 tref<br>• Arwyddo a dehongli – wedi ei osod mewn 6 tref<br>• Cadwraeth – nifer o strwythurau hanesyddol wedi derbyn buddsoddiad<br>• Ymgysylltu, addysgu a digwyddiadau – trwy'r prosiect LleCHI LleNI byddwn wedi cyrraedd allbynnau'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Blwyddyn 2.<br>• Llywodraethu: Byddwn wedi adolygu'r Cynllun Rheoli yn ystod 2025 a datblygu'r Cynllun Dehongli a Rheoli Ymwelwyr newydd. | Do | pawb' wedi ei gynnal ym Mhortmeirion ar 04-03-26.<br><br>Prosiectau sylweddol ar waith ar draws y tirlun llechi. Adroddiad Blynyddol i'w weld yma.<br>Prosiect Llewyrch o'r Llechi (a gyllidir trwy arian Llywodraeth y DU) wedi derbyn ymestyniad i gwblhau'r gwaith. Pob elfen o'r rhaglen bellach ar waith.<br>Parhau i gydweithio efo Amgueddfa Lechi Cymru a'r Hen Bost i sicrhau bod pecynnau ariannu cyflawn mewn lle.<br>Celf cyhoeddus trawiadol wedi ei osod mewn 4 o 6 lleoliad gyda chaniatâd<br>Cynllunio mewn lle ar gyfer Llanberis a threfniadau Bethesda mewn lle.<br>Gwelliannau canol tref ar waith a nifer wedi cwblhau. Gwaith Cadwraeth Ysbyty Chwarel Penrhyn dal ar waith ac yn derbyn sylw a diddordeb eithriadol yn lleol.<br>Gweithgareddau hynod boblogaidd yn cael eu cynnal trwy LleCHI LleNI o fewn ein cymunedau ac ysgolion.<br>Gweithdy thematig dehongli wedi ei gynnal gyda yn agos at 50 o fynychwyr er mwyn datblygu dehongli ar draws y Safle Treftadaeth Byd.<br>Yn y 12 mis diwethaf mae LleCHI LleNI wedi cefnogi:<br>• 68 digwyddiad<br>• 3,100 o bobl wedi mynychu yn cynnwys 1,938 o blant<br>Aelodau'r tîm wedi mynychu digwyddiadau yn Iwerddon a Chaerdydd i rannu arfer da. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Economi a Chymuned – Adfywio cymunedau a chanol trefi** | Byddwn yn sefydlu Fframwaith Adfywio drwy ddatblygu Cynlluniau Adfywio Lleol ar gyfer 13 dalgylch ar draws y sir ac yn sicrhau trefniadau traws-adrannol o fewn y Cyngor er mwyn sicrhau fod rhaglenni gwaith yn cyd-blethu a rhannu gwybodaeth gyda chymunedau drwy barhau gyda'r gwaith ymgysylltu. Bydd cynlluniau gweithredu ar gyfer Canol Tref/ Dinas yn cael eu paratoi ar gyfer trefi unigol. | Byddwn wedi adolygu a diweddaru'r Cynlluniau Adfywio Lleol ar gyfer pob un o'r 13 ardal adfywio lleol; gan gynnwys trefniadau lleol i'w cyd-lynu. | Do | Mae Cynlluniau Adfywio Lleol ar gyfer pob un o'r 13 ardal wedi eu diweddaru yn ystod cyfnod 2025/6, a chyfres o gyfarfodydd wedi eu cynnal yn lleol. |
| | | Bydd Grwp Traws-Adrannol yn cyfarfod yn chwarterol er mwyn sicrhau trefniadau cydweithio rhwng y cynlluniau adfywio lleol a phrosiectau strategol y Cyngor. | Do | Mae grŵp traws adrannol wedi ei sefydlu ar gyfer Cynllun Canol Trefi Gwynedd Ni 2025/6; a chynllun SPF Gwydnwch Cymunedol yn cefnogi hybiau ym mhob ardal leol |
| | | Byddwn wedi cefnogi a galluogi partneriaid i weithredu pecyn o brosiectau adfywio ar draws cymunedau Gwynedd drwy weinyddu Cronfa Allweddol Cefnogi Cymunedau (gyda arian SPF) yn ystod cyfnod 2025/6. | Do | Llwyddwyd i sicrhau £800k arian Cronfa Ffyniant Cyffredin ar gyfer Cronfa Allweddol yn cefnogi prosiectau adfywio lleol. Llwyddodd y Gronfa i gefnogi ystod eang o brosiectau yn ystod 2025/6 gyda enghreifftiau yn cynnwys Menter y Twr, Pwllheli; Meithrinfa Seren Fach, Brithdir; Cynllun Hen Lyfrgell Pwyllgor Pentre Deiniolen; cynllun Canolfan Rhyd Ddu, Antur Nantlle; a cynlluniau Menter Rabar, Abersoch. |
| | | Byddwn wedi datblygu pecyn o gynigion buddsoddi er mwyn uwchraddio canol trefi a phentrefi'r Sir fel rhan o Cynllun Adfywio Gwynedd Ni yn ystod 2025/6, gan dargedu grant Cronfa Ffyniant Cyffredin. | Do | Llwyddwyd i sicrhau £1.3m arian Cronfa Ffyniant Cyffredin ar gyfer pecyn Cynllun Adfywio Gwynedd Ni. Cafod rhan helaeth o'r pecyn ei weithredu yn ystod cyfnod, gyda enghreifftiau yn cynnwys gwelliannau Maes Cricieth; uwchraddio toiledau cyhoeddus yn Abermaw ac Abersoch; Gwelliannau Ty Siamas, Dolgellau; rhagbaratoi cynlluniau ym Mangor, Pwllheli a'r Bala; a threialu Cronfa ar gyfer Cynghorau Thref a Chymuned. |
| | | Byddwn yn denu buddsoddiad ychwanegol i adfywio canol trefi Gwynedd drwy dargedu Rhaglen Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru. | Do | Mae grant Trawsnewid Trefi wedi ei sicrhau ar gyfer prosiectau Canolfan Porthmadog, Gob Crwn, a Llety Arall. Mae |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | arian rhagbaratoi wedi ei sicrhau ar gyfer cynllun Camp Rhufeinig Bangor, a Cei Llechi. Mae pecyn £1.5m wedi ei ddatblygu ar gyfer Cronfa Effaith Balchder Bro sydd i'w gwblhau yn ystod 2026/7. |
| | | Byddwn wedi dod a mwy o adeiladau gwag i ddefnydd drwy'r Rhaglen Eiddo Gwag Cyngor Gwynedd/ | Do | Mae rhaglen Eiddo gwag yn weithredol, a cefnogwyd 13 eiddo gwag yn ôl i ddefnydd mewn canol trefi. Sicrhawyd £995k ar gyfer peilot eiddo gwag Stryd Fawr Bangor fydd yn cael ei gwblhau yn ystod 2026/7. |
| **Economi a Chymuned – Creu'r amgylchiadau gorau posib yng Ngwynedd i fusnesau a mentrau cymunedol ffynnu, a chefnogi pobl Gwynedd mewn i waith** | Byddwn yn cefnogi busnesau a mentrau cymunedol Gwynedd i ffynnu mewn sawl ffordd megis datblygu cynnyrch a chael mynediad i farchnadoedd newydd, helpu mentrau i arbed arian drwy leihau gwastraff a defnyddio technoleg yn well, cefnogi busnesau yng Ngwynedd i fasnachu gyda'i gilydd a blaenoriaethu helpu mentrau sydd yn ymrwymo i dalu 'cyflog byw gwirioneddol' i'w gweithwyr. Byddwn yn hybu busnesau i wneud y mwyaf o'r Gymraeg, yn datblygu mwy o unedau busnes i'w gosod ar rent, ac yn ymdrechu i sicrhau fod prosiectau Cynllun Twf Gogledd Cymru yn elwa pobl Gwynedd. Byddwn hefyd yn helpu pobl Gwynedd i gyflawni eu potensial a | Byddwn wedi darparu rhaglen o gymorth i gefnogi busnesau a mentrau cymdeithasol yn ystod 2025/26 gan ddefnyddio arian o flwyddyn ychwanegol y Gronfa Ffyniant Gyffredin.<br><br>Byddwn wedi rheoli blwyddyn pontio'r rhaglen ARFOR yng Ngwynedd a'r rhanbarth.<br><br>Byddwn wedi cynnal rhaglen i ddathlu a hyrwyddo llwyddiant busnesau a mentrau Gwynedd yn cynnwys cynnal wythnos o weithgaredd y ystod tymor yr Hydref.<br><br>Byddwn wedi sicrhau cyngor i fusnesau a mentrau Gwynedd sy'n ymateb i'w pryderon.<br><br>Byddwn wedi cychwyn adeiladu 10 uned busnes newydd yn Minffordd yn ystod ail chwarter 2025/26. | DO<br><br>DO<br><br>DO<br><br>DO<br><br>DO | Sicrhawyd cyfanswm o £1.3 miliwm sydd wedi ei ddarparu i 118 o fusnesau i gynorthwyo mentrau lleol i leihau costau neu gynyddu eu hincwm.<br><br>£500,000 wedi ei sicrhau i barhau ARFOR ar draws Gwynedd, Môn, Ceredigion a Sir Gar. Cafodd yr arian ei ddefnyddio i drosglwyddo dysgu o'r rhaglen a gweithredu ymyraethau o fewn y themâu ieuenctid a mudo.<br><br>Wythnos Busnes 2025 wedi ei gynnal mis Hydref. Newyddion am lwyddiannau lleol wedi eu rhannu i dros 4 mil o fusnesau yn wythnosol drwy ein bwletinau busnes.<br><br>Rhaglen o sesiynau galwch heibio ac Arolwg Busnes wedi eu cynnal i ddeall pryderon mentrau, rhaglen o sesiynau gwybodaeth / hyfforddiant wedi eu darparu mewn ymateb.<br><br>Unedau yn y broses o gael eu hadeiladu ac am fod yn barod I'w gosod yn yr hydref. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | chefnogi y rhai sydd wedi eu heithrio o’r farchnad lafur i ddychwelyd i waith a gweithio gyda chyflogwyr i’w helpu i sicrhau gweithwyr digonol. | Byddwn wedi cydweithio gyda partneriaid ar draws Gogledd Cymru i sicrhau budd i Wynedd o Gais Twf Gogledd Cymru | DO | Unedau diwydiannol yn Parc Bryn Cegin yn cael eu hadeiladu; dwy wedd gyntaf Hwb Gwledig Glynllifon wedi ei gymeradwyo ac yn cael ei adeiladu; cynlluniau ar gyfer Gwedd 3 prosiect Glynllifon yn cael ei ddatblygu; canolfan Academi Croeso Portmeirion wedi ei gwblhau; cynlluniau ar gyfer datblygiad Zip World yn Chwarel Penrhyn a Llechwedd yn parhau i gael eu datblygu; cynllun i ddatblygu Ysgol Fusnes Albert Gubay wedi cael ei gymeradwyo gyda’r gwaith yn cychwyn ar safle’r hen Ysgol Friars ym Mangor yn ystod 2026; arian wedi ei neilltuo i gefnogi Canolfan Sgiliau a Gwyddoniaeth yn Nhrawsfynydd, gyda’r achos busnes manwl yn cael ei gyflwyno cyn diwedd y flwyddyn a’r bwriad o gychwyn adeiladu yn 2027. |
| | | Byddwn wedi cytuno ar Strategaeth Economaidd newydd i Wynedd ar gyfer cyfnod 2025-2028 ac wedi paratoi ceisiadau am adnoddau i weithredu ei blaenoriaethau. | DO | Strategaeth economaidd newydd wedi ei ddatblygu a’i gytuno gan Cabinet 10 Mawrth a Cyngor Llawn 15 Mai. Adnoddau i weithredu elfennau o’r strategaeth wedi eu targedu. |
| | | Byddwn wedi darparu cymorth i drigolion Gwynedd ddychwelyd i waith ac i gynyddu eu gallu i ennill cyflog da. | DO | Cymorth wedi ei ddarparu, 255 o drigolion Gwynedd wedi cael gwaith yn dilyn derbyn cefnogaeth a 130 yn gallu ennill cyflog gwell ar ôl derbyn help i wella eu sgiliau. |

## <u>Gwynedd Ofalgar:</u> Cefnogi trigolion Gwynedd i fyw bywydau llawn a diogel yn ein cymunedau

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Trawsadrannol: Cefnogi Llesiant Pobl** | Mae rhai trigolion yn ei chael hi'n anodd i ymdopi gyda heriau bywyd ac mae sefyllfa nifer o drigolion wedi gwaethygu yn sgil yr argyfwng costau byw. Mae'r trigolion hyn angen cefnogaeth i ymdopi, i ffynnu, i fod yn ddiogel, ac i gadw'n iach.<br>Mae gennym rwydwaith eang drwy ein cymunedau sy'n helpu ac yn cefnogi trigolion i ymdopi ac yn ymateb i'w anghenion amrywiol. Mae'r rhwydwaith honno angen cefnogaeth i gynnal yr ymdrech gwirfoddol hwnnw, a byddwn yn gweithio i gryfhau'r gwaith hanfodol yma dros y blynyddoedd nesaf. | Byddwn wedi Sefydlu 2 Hwb Cefnogi Pobl mewn 2 ardal newydd.<br><br>Byddwn wedi trefnu hyfforddiant i weithwyr a gwirfoddolwyr yr Hybiau ar gefnogi unigolion.<br><br>Byddwn wedi penodi swyddi Hyrwyddwyr Lles a cynnal digwyddiadau costau byw, sesiynau galw heibio amrywiol.<br><br>Byddwn wedi cydweithio gyda partner gwirfoddol i ddarparu cefnogaeth rhifedd a cyllidebu i drigolion. | Do<br><br>Do<br><br>Do<br><br>Do | Bellach mae trefniadau Hwb ar waith ym mhob un o'r 13 ardal ar draws y sir. Mae gwaith wedi dechrau ar ddatblygu model mwy cynaliadwy o ddarparu cefnogaeth mewn 3 ardal sef Tywyn, Bermo a Blaenau Ffestiniog, drwy ymgorffori trefniadau'r Hwb o fewn gwasanaeth Llyfrgelloedd Gwynedd.<br><br>Mae hyfforddiant MoneyGuiders bellach wedi ei gynnwys ar borth dysgu'r Cyngor er mwyn galluogi gweithwyr rheng flaen i ddatblygu sgiliau cefnogi trigolion gyda materion ariannol a chyllidebu.<br><br>Fel rhan o'r model newydd o gefnogaeth gymunedol, mae holl staff Llyfrgelloedd Gwynedd wedi dechrau ar yr hyfforddiant MoneyGuiders.<br><br>Mae'r Hwylusydd Lles wedi sefydlu rhaglen o sesiynau galw heibio mewn llyfrgelloedd lleol, ynghyd â digwyddiadau partneriaeth i godi ymwybyddiaeth o gymorth costau byw a gwasanaethau cefnogi sydd ar gael.<br><br>Drwy gyllid SPF y Prosiect Gwytnwch Cymunedol, mae Cyngor ar Bopeth ac Advice MidWales yn darparu sesiynau allgymorth ar draws rhwydwaith yr Hybiau ledled y sir. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Mae addasiadau wedi eu gwneud i gytundeb lefel gwasanaeth CAB er mwyn sicrhau bod y trefniadau allgymorth yma yn parhau y tu hwnt i gyfnod cyllido SPF. |
| | | Byddwn wedi cwblhau'r Prosiect Cynhwysiad Digidol i roi help ymarferol i ddysgu pobl i fynd ar-lein a dosbarthu cyfarpar TG. | Do | Mae Cynllun Gwytnwch Cymunedol SPF wedi ariannu AbilityNet i gynnal sesiynau galw heibio anffurfiol yn y rhwydwaith Hybiau i gefnogi trigolion gyda TG a chynhwysiant digidol. |
| | | Byddwn wedi cynnal Cynllun Bwyd i gynnwys sefydlu cronfa grant ar gyfer cynlluniau bwyd a bwydo gan grwpiau cymunedol; cyrsiau coginio yn y gymuned ar y cyd gyda'r Bwrdd Iechyd, a chreu gerddi a rhandiroedd cymunedol. | Do | Mae 6 rownd o grantiau bwyd wedi eu cynnal i gefnogi cynlluniau bwydo cymunedol ar draws y sir.<br><br>Hyd yma mae grantiau gwerth £217,743 wedi eu dyrannu i grwpiau cymunedol a banciau bwyd i gryfhau cefnogaeth lleol i drigolion |